

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Hillcrest / Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 03 Rhagfyr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mawrth 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Hillcrest yn 86 Holt Road, Wreccsam, LL13 8RG, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 3 Rhagfyr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Canolfan Feddygol Hillcrest yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwybodaeth i gleifion ac ymgysylltu â chleifion
- Roedd y staff i gyd yn trin y cleifion ag urddas a pharch
- Roedd y cofnodion o'r ymgynghoriadau â'r cleifion o safon dda
- Tîm llywio gofal dynodedig
- Cyfathrebu yn fewnol ac yn allanol
- Amgylchedd croesawgar.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Penodi Hyrwyddwr Gofalwyr
- Cynnal adolygiadau achos rheolaidd mewn perthynas â meddyginiaeth ac archwiliadau rhagnodi
- Ailddechrau cynnal cyfarfodydd y tîm diogelu amlddisgyblaethol
- Defnyddio set safonedig o godau READ yn y practis i gyd
- Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith crynhoi nodiadau a chodau READ.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Feddygol Hillcrest wedi cael ei rheoli gan y Gydweithfa Gofal Cymunedol ers 1 Tachwedd 2019. Model arloesol ar gyfer practis cyffredinol yw'r Gydweithfa Gofal Cymunedol sy'n diwallu anghenion meddygol, cymdeithasol a bugeiliol ei chleifion. Ar hyn o bryd, mae Canolfan Feddygol Hillcrest yn darparu gwasanaethau i tua 5650 o gleifion yn ardal Wrecsam. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri meddyg teulu cyflogedig, un meddyg teulu locwm, pum uwch-ymarferydd clinigol, pedair nyrs gofrestrdig, tri chynorthwydd gofal iechyd, dau swyddog llywio gofal arbenigol, pedwar swyddog llywio gofal / aelod o staff gweinyddol a thri arweinydd busnes. Caiff y tîm ei gefnogi gan Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaeth y Gydweithfa Gofal Cymunedol.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau meddygon teulu, gan gynnwys:

- Dermatoleg
- Mân lawdriniaethau
- Clinigau
- Iechyd menywod
- Rheoli cyflyrau cronig fel pwysedd gwaed uchel, asthma, diabetes, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint
- Imiwneiddiadau i oedolion a phlant
- Profion ceg y groth a dulliau atal cenhedlu
- Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer gorbryder, pobl sy'n isel eu hysbryd, anhwylderau bwyta a dibyniaeth
- Mân salwch fel brathiadau, heintiau'r glust a'r croen
- Alergeddau

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y practis hwn yn ceisio rhoi profiad o ansawdd uchel i'w gleifion.

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol a chyfredol yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Dim ond tri o holiaduron wedi'u cwblhau a ddaeth i law.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â sawl claf er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Cadw'n iach

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hiechyd eu hunain gan fod y staff yn rhoi cyngor iddynt ar sut i hybu eu hiechyd a bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hefyd sgrin deledu yn yr ardal aros a oedd yn arddangos gwybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth am y practis.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio swyddogion llywio gofal¹ i gyfeirio cleifion at weithwyr proffesiynol priodol sydd mewn gwell sefyllfa i'w helpu, er mwyn lliniaru'r pwysau ar y staff clinigol yn y practis.

Roedd pobl â chyfrifoldebau gofalu yn cael eu nodi ac yn cael cyngor a gwybodaeth am wasanaethau a allai fod o gymorth iddynt. Gwelsom nad oedd gan y practis Hyrwyddwr Gofalwyr a fyddai'n rhoi llais i ofalwyr yn y practis ac a fyddai'n bwynt cyswllt allweddol ar gyfer gwybodaeth i ofalwyr. Cawsom sicrwydd llafar gan y practis bod cynlluniau eisoes ar waith i'r tîm cydlynu gofal chwarae'r rôl hon.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg².

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod Hyrwyddwr Gofalwyr yn cael ei benodi a bod y manylion yn cael eu hysbysebu i'r cleifion.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn cyfarch pobl mewn ffordd broffesiynol ond cyfeillgar iawn wrth ddesg y dderbynfa ac yn ystod sgysiau ffôn.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a gwelsom fod cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion wedi cael eu hystyried. Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle gallai cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw'r cleifion.

¹ Mae swyddogion llywio gofal wedi'u hyfforddi i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan y person cywir

² Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn manau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Cawsom wybod gan y practis bod cynlluniau ar ddod i wella'r ardal aros a'r dderbynfa. Caiff y dderbynfa ei hehangu er mwyn creu ardal sy'n fwy cyfeillgar a deniadol. Caiff yr ystafell aros ei hadnewyddu er mwyn creu ardaloedd cyfrinachol dynodedig ar gyfer rhoi ac adolygu presgripsiynau cleifion.

Roedd y drysau i ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth unigol yn cael eu cadw ar gau pan roedd y staff yn gweld cleifion. Roedd llenni ar gael hefyd o amgylch gwelyau archwilio. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod apwyntiadau.

Roedd yr hawl i ofyn am hebryngwr wedi'i hysbysebu'n glir yn y practis. Dywedwyd wrthym hefyd y caiff hebryngwyr eu cynnig i gleifion ar lafar yn yr ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o staff anghlinigol yn y practis yn gweithio fel hebryngwyr a'u bod wedi cael canllawiau a hyfforddiant perthnasol.

Gwybodaeth i gleifion

Fel y soniwyd eisoes, roedd taflenni gwybodaeth am faterion yn ymwneud ag iechyd ar gael i gleifion yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol, cyngor ar hybu iechyd a rheoli hunanofal ar gyfer cyflyrau sy'n ymwneud ag iechyd.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau.

Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis a'r gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen i gleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedwyd wrthym fod sawl aelod o'r staff yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion. Gwelsom fod yr aelodau hynny o'r staff yn gwisgo laniard laith Gwaith i hysbysebu'r gwasanaeth hwn. Mae brand laith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg.

Darparwyd dolen clyw er mwyn helpu'r cleifion hynny sydd â nam ar eu clyw i gyfathrebu.

Gofal amserol

Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau nad oeddent yn rhai brys ymlaen llaw rhwng dydd Llun a dydd Gwener, dros y ffôn. Gwelsom hefyd fod y practis yn cynnal rhywfaint o apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau brys. Roedd y

practis hefyd yn defnyddio cyfleuster Fy lechyd Ar-lein³ i wneud cais am bresgripsiynau amlroddadwy. Dylid annog y cleifion i ddefnyddio'r cyfleuster hwn oherwydd gallai leihau'r pwysau ar y llinellau ffôn.

Gwelsom fod y practis yn gwneud atgyfeiriadau at arbenigwyr eraill mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis system ffurfiol ar waith i sicrhau bod atgyfeiriadau wedi cael eu derbyn a bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd mewn perthynas â nhw. Gwelsom hefyd nad oedd gan y practis system ffurfiol ar waith i sicrhau bod meddyg teulu yn bwrw golwg dros yr holl wybodaeth glinigol sy'n cyrraedd y practis.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r llythyrau atgyfeirio a gwybodaeth glinigol sy'n cyrraedd y practis o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni brys. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda iawn ac yn gwneud addasiadau yn unol ag anghenion unigol pobl ar sail y wybodaeth hon.

Roedd pob un o ystafelloedd ymgynghori'r meddygon teulu, yr ystafelloedd clinigol a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori, yr ystafelloedd clinigol a'r ystafelloedd triniaeth yn fawr ac yn cynnwys adnoddau da iawn.

Roedd gan yr adeilad fynediad digonol i bobl anabl ac roedd nifer o leoedd parcio dynodedig i bobl anabl yn y maes parcio cyfagos.

Hawliau pobl

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i gleifion ag anghenion a gofynion iaith amrywiol, fel y disgrifir uchod.

³ <https://www.myhealthonline-inps.wales.nhs.uk/mhol/home.jsp>

Nodwyd bod polisi cyfle cyfartal penodol ar waith yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom nad oedd gan y practis grŵp cyfranogiad cleifion yn ystod ei gyfnod dan reolaeth y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, roedd y Gydweithfa Gofal Cymunedol wedi gwneud trefniadau i atgyfodi'r grŵp hwn. Mae grwpiau cyfranogiad cleifion yn rhoi gwybodaeth werthfawr i bractisau am y gwasanaethau a ddarperir ac yn cyfleu profiadau cleifion uniongyrchol.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn ar gael ar wefan y practis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth o'r fath i'w gweld yn yr ardal aros. Roedd gwybodaeth Gweithio i Wella GIG (Cymru)⁴ ar gael.

Dywedwyd wrthym fod pwyslais yn cael ei roi ar ddelio â chwynion yn llygad y ffynnon er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl ac osgoi'r angen i'w huwchgyfeirio.

Gwnaethom drafod system y practis i gael adborth gan y cleifion. Cawsom wybod bod cynlluniau ar waith i ailgyflwyno arolygon cleifion o fis Ionawr 2020. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i arddangos dadansoddiad o'r adborth yn yr ardal aros / derbynfa, er mwyn dangos i gleifion bod y practis yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cytunodd y practis i wneud hynny.

⁴ Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod gwybodaeth am broses gwyno fewnol y practis ar gael yn yr ardal aros.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gleifion.

Roedd gwybodaeth ddwyieithog ar gael i gleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a archwiliwyd gennym o safon dda.

Roedd polisi diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Wrth fynd o amgylch adeilad y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd a oedd yn agored i gleifion yn lân ac yn glir rhag rhwystrau, a oedd yn lleihau'r risg o faglu a chwympo.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, mae gan y practis amryw o gynlluniau i wella'r amgylchedd. Gwelsom gynlluniau manwl ar gyfer gwaith i adnewyddu'r dderbynfa a'r ardal aros, a fydd yn digwydd yn fuan.

Roedd asesiadau risg iechyd a diogelwch cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi'i wasanaethu yn rheolaidd.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy, ac roedd poster iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis.

Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith, a gwelsom dystiolaeth bod archwiliad wedi cael ei gynnal yn ddiweddar.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau plastig tafladwy, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân.

Gwelsom fod y llenni yn yr ystafelloedd triniaeth yn rhai tafladwy gan olygu bod modd eu tynnu oddi yno a rhoi rhai newydd yn eu lle yn hawdd pe byddent yn cael eu halogi neu eu baeddu. Mae hyn yn dangos ymrwymiad da i atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd cynwysyddion glanweithydd dwylo ar gael o gwmpas y practis hefyd.

Yn ystod ein harolygiad, nid oedd y practis wedi gallu rhoi tystiolaeth i ddangos bod staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi cael imiwneiddiadau Hepatitis B.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn ag imiwneiddiadau Hepatitis B ar gyfer staff clinigol o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni brys. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Roedd y gwastraff wedi'i rannu mewn cynwysyddion/bagiau lliw gwahanol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel nes y gallai gael ei gasglu'n ddiogel.

Nodwyd gennym hefyd fod llawer o deganau i blant yn yr ystafell aros. At ddibenion atal a rheoli heintiau, argymhellwn fod y practis yn adolygu'r teganau sydd ar gael fel rhan o'i archwiliad atal a rheoli heintiau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis adolygu'r teganau sydd ar gael i blant fel rhan o'i archwiliad atal a rheoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Gellid gofyn am bresgripsiynau amlroddadwy yn bersonol yn y practis neu drwy'r post, neu drwy gwblhau'r rhestr rwygo ar gyfrifiadur, neu drwy ddefnyddio cyfleuster Fy Iechyd Ar-lein. Nodwyd bod y practis yn gwneud ymdrech i

ddychwelyd presgripsiynau i gleifion o fewn 48 awr. Nid oedd y practis yn derbyn presgripsiynau amlroddadwy dros y ffôn am resymau yn ymwneud â diogelwch.

Fodd bynnag, ni roddwyd sicrwydd llawn i ni bod y practis wedi bod yn adolygu achosion nac wedi cynnal archwiliadau rhagnodi yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth ddiangen, neu feddyginiaeth nad oedd y cleifion yn ei chymryd bellach, yn cael ei thynnu o'r rhestr presgripsiynau amlroddadwy. Dywedodd y Gydweithfa Gofal Cymunedol wrthym fod cynlluniau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith i wella'r trefniadau rheoli meddyginiaethau yn y practis. Mae tîm rheoli meddyginiaethau dynodedig yn cael ei sefydlu sy'n cynnwys technegydd fferylliaeth dynodedig a fydd yn cefnogi'r tîm o swyddogion llywio gofal a phob agwedd ar ragnodi yn y practis. Rhaid i'r practis sicrhau bod adolygiadau o achosion ac archwiliadau rhagnodi yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cleifion yn derbyn y feddyginiaeth gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod adolygiadau o achosion ac archwiliadau rhagnodi yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant a diogelu oedolion ar waith. Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff fel yr arweinydd diogelu enwebedig.

Cawsom wybod gan y practis y gall meddygon teulu locwm weld 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' a gaiff eu cadw yn y dderbynfa. Argymhellwn fod y gweithdrefnau'n cael eu cynnwys ym mhecyn sefydlu'r practis ar gyfer meddygon teulu sesiynol hefyd.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff presennol a staff newydd wedi cael hyfforddiant diogelu lefel un a dau a bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant lefel tri. Cawsom wybod hefyd fod materion diogelu yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd wythnosol y practis. Gwelsom fod y staff yn gwybod sut i adnabod arwyddion o gam-drin ymhlith plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran rhannu gwybodaeth, dogfennu pryderon yn ymwneud â diogelu a sut i gysylltu ag asiantaethau perthnasol.

Gwelsom fod achosion diogelu plant ac oedolion yn cael eu dwyn i sylw'r practis drwy system electronig y practis. Fodd bynnag, nodwyd achosion lle roedd cofnodion cleifion wedi cael eu fflagio er nad oedd y plant dan sylw ar y gofrestr

mwyach. Cawsom wybod nad oedd cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol mewn perthynas â diogelu wedi cael eu cynnal yn y practis dros y tair blynedd diwethaf. Rhoddwyd sicrwydd llafar i ni bod cynlluniau ar waith i ddechrau cynnal y cyfarfodydd hyn unwaith eto cyn gynted â phosibl.

Disgrifiodd y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geiradaon a/neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁵ ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, nid oedd y practis wedi gallu dangos bod pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd hyn hefyd yn cynnwys staff anghlinigol a oedd yn hebryngwyr penodedig.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni brys. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' yn cael eu cynnwys ym mhhecyn sefydlu'r practis ar gyfer meddygon teulu sesiynol.

Dechrau cynnal cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol mewn perthynas â diogelu unwaith eto, er mwyn sicrhau y tynnir sylw at achosion cywir ar y system electronig.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod dyfeisiau trydanol cludadwy yn cael eu profi yn rheolaidd.

Gwelwyd bod cyffuriau ac offer argyfwng a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng.

⁵ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Roedd gan y practis system ar gyfer dangos bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell i'r practis y dylai'r pecyn cyffuriau brys gynnwys cyclizine⁶ a glwcagon⁷ hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod y pecyn cyffuriau brys yn cynnwys cyclizine a glwcagon.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd trefniadau addas ar waith yn y practis i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd y practis yn defnyddio system Datix⁸ ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cofnodi a'u trafod mewn cyfarfodydd clinigol wythnosol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth ar waith. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth hon.

Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd da. Ym mhob achos, roedd y

⁶ Meddyginiaeth yw cyclizine a ddefnyddir i drin ac atal cyfog, chwydu a phendro.

⁷ Meddyginiaeth frys yw pigiad glwcagon ac fe'i defnyddir i drin hypoglycemia difrifol (lefel isel o siwgr yn y gwaed) ymhlith cleifion â diabetes sy'n cael eu trin ag inswlin, sydd wedi llewygu neu sy'n methu â chymryd unrhyw fath o siwgr drwy'r geg.

⁸ Meddalwedd ar y we ar gyfer rheoli risg a rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol yw Datix.

nodiadau'n cynnwys digon o fanylion am ymgynghoriadau rhwng y staff clinigol a'r cleifion ac roedd modd gweld canlyniad ymgynghoriadau a chynllun gofal.

Fodd bynnag, gwelsom fod codau READ⁹ yn cael eu defnyddio mewn ffordd anghyson yn y practis. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd meddyginiaethau bob amser yn cael eu cysylltu â chyflyrau meddygol yn y sampl o nodiadau'r cleifion a welsom.

Cawsom wybod gan y Gydweithfa Gofal Cymunedol ei bod wedi etifeddu llawer o broblemau o safbwynt codau READ pan gafodd y practis ei drosglwyddo iddi ym mis Tachwedd 2019. Ar adeg ein hymweliad, cawsom wybod bod y practis tua blwyddyn ar ei hôl hi o ran crynhoi nodiadau a chodau READ. Cawsom wybod bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i broblemau staffio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rhoddodd y Gydweithfa Gofal Cymunedol sicrwydd llafar i ni ei bod wrthi'n datblygu codau READ safonol i'w defnyddio ar fyrder yn y practis. Cawsom wybod hefyd fod y Gydweithfa yn ystyried yr opsiynau a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer yr ôl-groniad o waith crynhoi nodiadau a chodau READ.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod set o godau READ safonedig yn cael ei rhoi ar waith yn y practis.

Sicrhau bod cynllun rhesymol yn cael ei roi ar waith i glirio'r ôl-groniad o waith crynhoi nodiadau a chodau READ.

Sicrhau y caiff meddyginiaeth ei chysylltu â chyflyrau meddygol yn nodiadau'r cleifion bob amser.

⁹ Codau READ yw'r system terminoleg glinigol safonol a ddefnyddir gan feddygon teulu yn y Deyrnas Unedig. Mae'n golygu y gellir amgodio ffenomena cleifion lluosog mewn ffordd glinigol a manwl, gan gynnwys: galwedigaeth; amgylchiadau cymdeithasol; ethnigrwydd a chrefydd; arwyddion, symptomau ac arsylwadau clinigol; profion labordy a chanlyniadau; diagnosisu; triniaethau diagnostig, therapiwtig neu lawfeddygol a gyflawnwyd; ac amrywiaeth o eitemau gweinyddol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dîm o staff a oedd wir yn canolbwyntio ar y claf, a oedd yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl ac a oedd yn cael eu cefnogi gan dîm arwain ymroddedig. Gwelsom y staff yn cefnogi ei gilydd ac yn cydweithio'n dda iawn fel tîm.

Ar y cyfan, roedd y practis yn cael ei reoli'n dda gan dîm rheoli ymroddedig oedd ag ethos o fod yn agored a hawdd mynd ato, a oedd yn golygu y gallai'r staff godi materion yn hyderus.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Caiff Canolfan Feddygol Hillcrest ei rheoli gan Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaeth y Gydweithfa Gofal Cymunedol. Caiff y practis ei gefnogi gan dri Arweinydd Busnes a gwelsom fod gan y practis arweinwyr cadarn.

Gwelsom fod holl staff y practis yn ymddwyn yn barchus ac yn gwrtais â'i gilydd. Rhoddwyd gwybod i ni gan y staff eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion â'r tîm arwain ac yr eir i'r afael ag unrhyw faterion mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi gweld gwelliannau sylweddol yn y practis ers i'r Gydweithfa Gofal Cymunedol gymryd yr awenau. Dangosodd y tîm arwain ddulliau cynhwysol o reoli, gan hyrwyddo dull gweithredu agored a thryloywder ymhlith ei holl staff a chleifion.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn hynod ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Siaradodd y staff yn gadarnhaol iawn am yr amgylchedd gwaith ac roeddent i gyd yn teimlo bod eu cydweithwyr yn eu parchu ac yn eu cefnogi.

Gwelsom hefyd fod awyrgylch cadarnhaol yn y practis. Yn ystod ein sgrysiâu â'r cleifion a'r staff, mynegwyd cyffro a brwdfrydedd am y newidiadau a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y practis a'r rhai a fydd yn digwydd yn y dyfodol agos.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael a dywedodd y staff i gyd wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi pryderon.

Mae'r practis yn rhan o grŵp clwstwr lleol¹⁰ ac roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac un o'r tri Arweinydd Busnes yn mynd i'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd. Dywedwyd bod y practis yn ymgysylltu'n dda iawn â'r grŵp clwstwr a'u bod yn cydweithio'n dda â'i gilydd.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff, i'w llywio yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Cawsom wybod bod y Gydweithfa Gofal Cymunedol wrthi'n adolygu ac yn diweddarau'r holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ers iddi gymryd yr awenau ym mis Tachwedd 2019.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd tîm sefydlog o staff derbynfa a staff gweinyddol yn y practis. Wrth drafod â'r staff ac adolygu sampl o gofnodion staff, gwelwyd bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir, ar y cyfan, i gyflawni eu rolau penodol o fewn y practis. Roedd y staff wedi cael arfarniad blynyddol neu roedd cynlluniau ar waith i wneud hynny.

Cadarnhaodd yr holl aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Cawsom wybodaeth am hyfforddiant gorfodol yn dilyn ein harolygiad, a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ac roedd cynlluniau ar waith i alluogi'r staff i ddiweddarau eu hyfforddiant lle y bo'n gymwys.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau recriwtio ffurfiol ar waith.

¹⁰ Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG Cymru.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Hillcrest

Dyddiad arolygu: 3 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Canfyddiad:</p> <p>Nid oedd gan y practis system ar waith i sicrhau bod atgyfeiriadau wedi cael eu derbyn a bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd mewn perthynas â nhw.</p> <p>Yr hyn sydd angen ei wella:</p> <p>Rhaid i'r practis roi system ffurfiol ar waith i fonitro pob atgyfeiriad, gydag amserlenni safonol, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn amserol.</p>	<p>Safon 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p> <p>Safon 5.1 Mynediad amserol</p>	<p>Caiff y system bresennol ei rheoli gan ysgrifennydd y practis.</p> <p>Fel rhan o'r broses, mae'r ysgrifennydd yn adolygu pob atgyfeiriad bob dydd. Mae hon yn broses lafurus, felly, gan edrych i'r dyfodol, rydym wedi gofyn am adborth gan arweinwyr Clystyrau Wrecsam.</p> <p>Mae'r adborth a gafwyd yn cynnwys:</p> <p>Proses atgyfeirio safonedig, lle mae pob atgyfeiriwr yn defnyddio</p>	<p>Dewi Richards</p>	<p>10.12.19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Lexacom a chaiff atgyfeiriadau eu hanfon at y tîm gweinyddol clinigol i'w holrhain.</p> <p>Byddwn hefyd yn chwilio bob wythnos ar Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru am unrhyw atgyfeiriadau sydd wedi'u gohirio.</p> <p>Yn ogystal, byddwn yn chwilio bob pythefnos am atgyfeiriadau brys lle amheuir cancer a byddwn yn chwilio am atgyfeiriadau brys bob mis. Caiff y rhain wedyn eu hadolygu gan y clinigydd awdurdodi.</p> <p>Byddwn yn rhoi slip i gleifion yn gofyn iddynt ffonio'r feddygfa os na fyddant wedi cael apwyntiad o fewn amserlen benodol.</p>		
Canfyddiad:	Safon 3.1 Gofal Diogel	Mae'r broses ers 1.11.19 fel a ganlyn:	Dr Sankey / Cat Dobbins	Cyfweiliadau i ddechrau yn ystod wythnos 16.12.19

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Nid oedd gan y practis system ar waith i sicrhau bod meddyg teulu yn bwrw golwg dros yr holl wybodaeth glinigol sy'n cyrraedd y practis.</p> <p>Yr hyn sydd angen ei wella:</p> <p>Rhaid i'r practis roi system ffurfiol ar waith i sicrhau bod meddyg teulu yn bwrw golwg ar yr holl wybodaeth glinigol sy'n cyrraedd y practis.</p>	<p>a Chlinigol Effeithiol</p> <p>Safon 5.1 Mynediad amserol</p>	<p>Staff gweinyddol clinigol yn stampio'r dyddiad ar unrhyw wybodaeth sy'n cael ei derbyn</p> <p>Uwch-glinigwyr (meddyg teulu ymgynghorol ac uwch-ymarferydd clinigol) yn gweld y wybodaeth ac yn gweithredu arni ar yr un diwrnod ac yn ei llofnodi.</p> <p>Yn dilyn hyn, caiff yr atgyfeiriad ei ddychwelyd i'r ysgrifennydd gweinyddol clinigol i'w sganio a'i godio.</p> <p>Er mwyn gwella ymhellach byddwn yn gwneud y canlynol:</p> <p>Cynllunio – rydym wedi nodi bod prinder staff gweinyddol clinigol. Rydym yn recriwtio staff newydd i helpu'r practis i gwblhau'r tasgau hyn yn amserol. Mae'r hysbyseb ar</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>wefan y Gydweithfa Gofal Cymunedol.</p> <p>Bydd y practis yn defnyddio Practice Unbound er mwyn gwella'r gwaith hwn. System electronig yw hon a ariennir gan glwstwr Wrecsam.</p> <p>Bydd Dr Sankey a'r Arweinydd busnes yn rhoi hyfforddiant mewnol i'r holl staff perthnasol.</p>		
<p>Canfyddiad:</p> <p>Ni allai'r practis ddarparu tystiolaeth i ddangos bod y staff clinigol wedi cael imiwneiddiadau Hepatitis B.</p> <p>Yr hyn sydd angen ei wella:</p> <p>Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael eu himinweiddio yn erbyn Hepatitis B.</p>	<p>Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Pob aelod o'r staff clinigol sydd wedi cael pigladau Hepatitis B i roi prawf o hynny.</p> <p>Cysylltwyd ag adran iechyd galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 16.12.19 i drefnu bod pob aelod arall o'r staff sydd heb gael brechiadau Hepatitis B yn eu cael. Yn aros am ymateb a chanllawiau</p>	<p>Dewi Richards</p>	<p>18.12.19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ar ddatblygu asesiad risg. Ar hyn o bryd, rydym wedi gofyn i bob aelod o'r staff sydd heb gael y brechiad beidio â thrin hylifau corfforol nes bod y mater yn cael ei ddatrys.</p> <p>Caiff y dystysgrif ei storio yn ffeiliau adnoddau dynol y staff.</p>		
<p>Canfyddiad:</p> <p>Nid oedd y practis wedi gallu dangos bod staff perthnasol wedi cael gwiriad adnewyddu gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd hyn yn cynnwys staff anghlinigol sy'n hebryngwyr penodedig.</p> <p>Yr hyn sydd angen ei wella:</p> <p>Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth bod pob aelod o staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rolau.</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae pob aelod o staff sy'n gweithio i'r Gydweithfa Gofal Cymunedol wedi cael gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – o ganlyniad i'r trosglwyddiad TUPE rydym wrthi'n adnewyddu gwiriadau'r holl staff TUPE i wiriadau'r Gydweithfa Gofal Cymunedol. Gall hyn gymryd sawl wythnos, felly rydym wedi cwblhau asesiad risg mewn perthynas â'r gwiriadau hyn ar gyfer pob aelod o staff sy'n aros am wiriad newydd.</p>	<p>Dewi Richards</p>	<p>Cyflwyno gwiriadau pob aelod o staff TUPE erbyn 18.12.19</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Y Gydweithfa Gofal Cymunedol

Enw (priflythrennau): Dewi Richards

Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau

Dyddiad: 18.12.19

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Hillcrest

Dyddiad arolygu: 3 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Sicrhau bod Hyrwyddwr Gofalwyr yn cael ei benodi a bod y manylion yn cael eu hysbysebu i'r cleifion.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Penodwyd Joanne Young i arwain y gwasanaethau cymorth i ofalwyr. Cynhaliwyd bore coffi ar 20.12.19 a gwahoddwyd y gofalwyr i hyn. Mae poster yn y dderbynfa ac rydym yn aros i wybodaeth gael ei lanlwytho i'r wefan.	JY	Cwblhawyd
Sicrhau bod gwybodaeth am broses gwyno fewnol y practis ar gael yn yr ardal aros	6.3 Gwranddo a Dysgu o Adborth	Mae dogfennaeth Gweithio i Wella bellach ar gael ar y wefan ac yn yr ardal aros.	FD	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis adolygu'r teganau sydd ar gael i blant fel rhan o'i archwiliad atal a rheoli heintiau.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Cafodd yr holl deganau nad oedd modd eu golchi eu gwaredu yn dilyn yr arolygiad, yn unol â chanllawiau rheoli heintiau.	PP	Cwblhawyd
Rhaid i'r practis sicrhau bod adolygiadau o achosion ac archwiliadau rhagnodi yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Cynhelir cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol bob dydd Mawrth a dydd Gwener rhwng 1-2pm, a chaiff ei arwain gan Dr Sankey. Penodwyd fferyllfa o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a fydd yn goruchwyllo'r broses archwilio ac adolygu meddyginiaeth am gyfnod o ddwy flynedd.	GY arweinydd fferylliaeth	Ar waith
Sicrhau bod 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' yn cael eu cynnwys ym mhhecyn sefydlu'r practis ar gyfer meddygon teulu sesiynol.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Wedi'i ychwanegu at becynnau yn dilyn yr adolygiad.	FD	Ar waith
Dechrau cynnal cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol mewn perthynas â diogelu unwaith eto, er mwyn sicrhau y tynnir sylw at achosion cywir ar y system electronig.		Sesiwn ddiogelu wythnosol a gynhelir gan y gweithiwr cymdeithasol neu uwchymarferydd, a'i dogfennu ar EMIS.	NA	Ar waith

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod y pecyn cyffuriau brys yn cynnwys cyclizine a glwcagon.	2.9 Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig	Gweithredwyd ar hyn yn dilyn yr adolygiad, anfonwyd archeb, aros i'r feddyginiaeth gael ei darparu.	CD	14.2.2020
Sicrhau bod set o godau READ safonedig yn cael ei rhoi ar waith yn y practis.	3.5 Cadw cofnodion	Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaethau ychwanegol, nodwyd rhestr o godau a oedd ar gael. Caiff y rhestr hon ei dosbarthu i'r holl glinigwyr a'r staff nad ydynt yn staff clinigol ar ôl i'r rhestr derfynol gael ei llunio.	CD	29.2.2020
Sicrhau bod cynllun rhesymol yn cael ei roi ar waith i glirio'r ôl-groniad o waith crynhoi nodiadau a chodau READ.		Mae trafodaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynd rhagddynt, cynhaliwyd archwiliad gan yr uwch-swyddog llywodraethu a chlinigwr er mwyn deall yr ôl-groniad yn well. Mae'r Gydweithfa Gofal Cymunedol yn rhoi cynllun adfer ar waith sy'n cynnwys goramser staff er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith crynhoi a, gobeithio, ennill cefnogaeth drwy ddilyn archwiliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.	DR	Awst 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau y caiff meddyginiaeth ei chysylltu â chyflyrau meddygol yn nodiadau'r cleifion bob amser.		Bydd y tîm rheoli meddyginiaethau yn darparu hyfforddiant i'r tîm yn y cyfarfod datblygiad personol nesaf ar 7.4.2020.	GY	Ebrill 2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dd/G				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dewi Richards

Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau

Dyddiad: 11.2.2020

